



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I
ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIYNYDD
PLANT CYMRU 2016-17

Tachwedd 2017

ISDN 978-1-78859-142-3

WG33085

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ADRODDIAD BLYNYDDOL
COMISIYNYDD PLANT CYMRU 2016-17**

Rhagair gan

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC,

Prif Weinidog Cymru



&

Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant

Huw Irranca-Davies



Fel llywodraeth, rydym yn croesawu adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant ar gyfer 2016-17. Rydym wedi ymrwmo i hawliau plant o hyd, ac i wrando ac ystyried eu safbwyntiau a sicrhau bod holl blant a phobl ifanc y genedl yn cael y dechrau gorau posib mewn bywyd.

Mae ein rhaglenni, ein polisiau a'n mentrau yn canolbwyntio ar wneud gwahaniaethau cadarnhaol i iechyd, llesiant, deilliannau addysgol a rhagolygon holl blant a phobl ifanc Cymru. Mae'r blynyddoedd cynnar, yn arbennig, yn flaenoriaeth allweddol i'r llywodraeth hon, ac yn rhan flaenllaw iawn o'n rhaglen lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen* ar gyfer tymor y Cynulliad hwn, a'n strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb*.

Mae'n bwysig ein bod ni'n parhau i wrando ar leisiau a barn plant a phobl ifanc am y blaenoriaethau, y rhaglenni a'r polisiau sy'n effeithio arnyn nhw ledled y llywodraeth. Mae hi'r un mor bwysig bod gan blant a phobl ifanc lais diduedd ac annibynnol i siarad drostynt ar faterion o bwys a phryder iddyn nhw; rhywun sy'n gallu gwarchod a hyrwyddo eu hawliau a'u lles, herio gwaith y Llywodraeth, a gwasanaethau cyhoeddus o safbwynt hawliau plant. Dyma rôl werthfawr swydd Comisiynydd Plant Cymru.

Yn adroddiad blynyddol 2016-17, mae'r Comisiynydd Plant wedi gwneud 19 o argymhellion i Lywodraeth Cymru. Mae 14 yn ymwneud â darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc, a 5 yn gysylltiedig â'u diogelu nhw. Fel llywodraeth, gallwn naill ai dderbyn neu dderbyn mewn egwyddor y rhan fwyaf o'r argymhellion. Hyn oherwydd ein bod ni'n parhau i rannu gweledigaeth sy'n rhoi plant wrth galon ein gwaith fel bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Hefyd, rydym yn rhannu'r un nod o sicrhau eu bod nhw'n gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt, pryd bynnag maen nhw ei angen, er mwyn eu helpu i gyflawni o'u gorau a byw bywydau hapus, iach a llewyrchus.

Hoffem weld pawb yn cydweithio i wireddu'r nod hwn. Mae'n hollbwysig bod y Comisiynydd, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector a'r llywodraeth yn parhau i gydweithredu er lles plant a phobl ifanc. Trwy wneud hyn a gwrando ar

leisiau'r to ifanc, credwn fod modd inni gyflwyno newidiadau gwirioneddol a chynaliadwy.

Mae adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant yn gyfle inni fyfyrto ar y cynnydd hyd yma; ond mae'r un mor bwysig edrych ymlaen hefyd. Mae rhai datblygiadau pwysig ym maes hawliau plant o'n blaenau yn ystod tymor y Cynulliad hwn, yn enwedig Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru), sy'n mynd drwy'r broses ddeddfu ar hyn o bryd; ddeddfwriaeth arfaethedig i ddileu'r amddiffyniad o gosb resymol. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Comisiynydd Plant ar y rhain, a materion a datblygiadau eraill i ddod yn y dyfodol.



Carwyn Jones



Huw Irranca-Davies

Cynnwys

CYFLWYNIAD	5
DARPARIAETH	6
Gwasanaethau Cymdeithasol	6
1. <i>Breuddwydion Cudd</i>	6
2. <i>Eithriad o'r dreth gyngor ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal</i>	9
3. <i>Mabwysiadu</i>	10
4. <i>Gofal Preswyl – Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd mewn ymateb i adroddiad Y Gofal Cywir</i>	12
5. <i>Gofal Preswyl – cynnwys plant a phobl ifanc a chynyddu gwasanaethau nid-er-elw</i>	13
6. <i>Eiriolaeth – Dull Cenedlaethol o ymdrin ag Eiriolaeth Statudol</i>	14
Addysg	16
7. <i>Cyfleoedd dysgu Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar gyfer plant sy'n fyddar neu â nam ar eu clyw a'u teuluoedd</i>	16
Iechyd	19
8. <i>Iechyd Meddwl</i>	19
9. <i>Eiriolaeth Iechyd</i>	20
Trafnidiaeth	21
10. <i>Trafnidiaeth</i>	21
Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol	22
11. <i>Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol: dyletswydd o sylw dyledus</i>	22
12. <i>Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol: Cryfhau Pwerau Tribiwnlys Addysg Cymru</i>	23
Y Blynyddoedd Cynnar	24
13. <i>Cynnig Gofal Plant</i>	24
Tlodi	26
14. <i>Tlodi Plant</i>	26
DIOGELU	30
Addysg	30
1. <i>Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant</i>	30
2. <i>Perthansoedd Iach</i>	31
3. <i>Cwricwlwm</i>	32
4. <i>Dewis Addysgu Gartref</i>	33
Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant	34
5. <i>Cysondeb yn y data sy'n cael ei gasglu, a dadansoddi'r data</i>	34

CYFLWYNIAD

Cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2016-17 ar 9 Hydref 2017. Mae modd gweld yr adroddiad trwy glicio yma:

[Adroddiad Blynyddol](#)

Mae'r adroddiad yn nodi rhai o gyflawniadau allweddol swyddfa'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cyflawniadau blwyddyn 1 mewn perthynas â chynllun strategol 3 blynedd y Comisiynydd (ar dudalen 8 o'r adroddiad) ac uchafbwyntiau'r gwaith craidd (tudalen 10).

Mae'r Comisiynydd yn trefnu gwaith ei swyddfa yn unol â phedair egwyddor Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Darparu, Cyfranogi, Diogelu a Hyrwyddo.

Hefyd, mae'r Comisiynydd wedi strwythuro corff ei hadroddiad yn ôl pedair egwyddor y Comisiwn, ac wedi gwneud 19 o argymhellion i Lywodraeth Cymru. Mae 14 wedi'u rhestru o dan adran 'Darpariaeth' a 5 o dan adran 'Diogelu'. Rhoddir crynodeb ohonynt ar dudalennau 41 a 42 yr adroddiad hwn.

Nodir ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hyn isod.

DARPARIAETH

Gwasanaethau Cymdeithasol

1. Breuddwydion Cudd

Argymhelliad 1(a) (darpariaeth)

Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni ei holl ymrwymadau a nodwyd yn adroddiad Breuddwydion Cudd, gan gynnwys cefnogaeth gyfartal i bawb sy'n gadael gofal, p'un a ydyn nhw wedi dod o ofal maeth neu ofal preswyl, cyllid i ymgynghorwyr personol i gefnogi pob ymadawr gofal hyd at 25 oed, cyhoeddi gwybodaeth glir i ymatebwyr gofal ar gyllid a gwarantu cefnogaeth ariannol i ymadawyr gofal sy'n mynd i addysg uwch. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad rhagweithiol ar ei chynnydd yn erbyn yr ymrwymadau hyn i awdurdodau lleol ac yn uniongyrchol i blant a phobl ifanc eu hunain.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynn

Fel ymateb i adroddiad Breuddwydion Cudd, cyhoeddodd cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant y bydd Cronfa Dydd Gŵyl Ddewi newydd gwerth £1 miliwn yn cael ei chyflwyno. Mae'r Gronfa yn caniatáu i Awdurdodau Lleol fynd ati'n greadigol i ddarparu cefnogaeth ariannol i'r sawl sy'n gadael gofal fel y gallan nhw gael mynediad llwyddiannus i gyflogaeth, addysg a chyfleoedd hyfforddi a fydd yn eu helpu nhw i gamu ymlaen i fyw yn fwy annibynnol. Anfonwyd llythyrau dyfarnu Grantiau at Awdurdodau Lleol ym mis Mehefin.

Mae cefnogi gadawyr gofal wrth iddynt gyrraedd oedolaeth a byw yn annibynnol yn thema allweddol o Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant. Dan gadeiryddiaeth David Melding AC, mae'r grŵp yn datblygu rhaglen waith gynhwysfawr gyda'r nod o wella deilliannau i blant, sy'n cynnwys cydweithredu ar draws y llywodraeth yn ogystal â gwaith partneriaeth agos gyda rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys y Comisiynydd Plant.

Mae'r ymrwymiadau a nodwyd yn Breuddwydion Cudd wedi'u cynnwys fel rhan o raglen waith Grŵp Cynghori'r Gweinidog. Bydd y grŵp yn monitro'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau hyn, gan gynnwys sut mae Awdurdodau Lleol yn defnyddio cronfa Dydd Gŵyl Ddewi, er mwyn asesu'r effaith ar y canlyniadau y mae gadawyr gofal yn eu profi.

Mae gwaith i estyn y cynllun 'Pan fydda i'n barod' i bobl ifanc mewn gofal preswyl yn cael ei ddatblygu gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofal Preswyl Plant, a gafodd ei sefydlu o dan y rhaglen Gwella canlyniadau i Blant. Y nod yw sicrhau bod pobl ifanc mewn gofal yn mwynhau'r un ystod o ddewisiadau o drefniadau byw ar ôl cyrraedd eu 18 oed â phobl ifanc a leolwyd mewn gofal maeth. Dylai gweithredu gofynion cofrestru newydd ar gartrefi gofal o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, ddileu'r rhwystrau cyfreithiol sy'n atal pobl ifanc rhag aros yn eu lleoliad preswyl ar ôl troi'n 18 oed.

Fel cam cyntaf, mae'r grŵp yn ystyried mesurau newydd i alluogi pobl ifanc i barhau yn eu lleoliad gofal preswyl tan o leiaf ddiwedd y flwyddyn academaidd pan fyddan nhw'n troi'n 18 oed, os mai dyma yw eu dymuniad. Bydd gwaith pellach ar ddefnyddio egwyddorion i blant mewn gofal preswyl yn rhan o raglen ddatblygu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Bydd hyn yn cynnwys trafodaethau â phlant a phobl ifanc, a dysgu oddi wrth y cynllun peilot 'Staying Close' yn Lloegr.

Yn dilyn cyhoeddi cyllid canlyniadol o £20 miliwn ychwanegol oddi wrth y DU ar gyfer gwelliannau mewn gofal cymdeithasol, dyrannwyd £8 miliwn ychwanegol i helpu i gefnogi plant sy'n derbyn gofal. O'r £8 miliwn hwn, mae Awdurdodau Lleol wedi derbyn £1 miliwn er mwyn estyn gwasanaethau cefnogaeth cynghorwyr personol i gynnwys gadawyr gofal 21-25 oed. Hefyd, rydym ni'n edrych ar yr opsiynau deddfwriaethol posibl i'w gwneud yn ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu cynghorydd personol i adawyr gofal tan eu bod 25 oed.

Yn dilyn Adolygiad Diamond o Gyllid Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddeddfu er mwyn galluogi pobl sydd wedi bod mewn lleoliad gofal i dderbyn y lefel uchaf bosibl o grant cynhaliaeth o 2018/19 ymlaen. Bydd hyn yn berthnasol i fyfyrwyr israddedig rhan-amser a llawn amser fel ei gilydd. Ar ôl gwneud y rheoliadau perthnasol, ein bwriad yw y bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y newidiadau ehangach i gymorth myfyrwyr a ddaw i rym o 2018/19 ymlaen.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio â chydweithwyr swyddfa'r Comisiynydd Plant i chwilio am ffyrdd y gellir defnyddio'r ap *MyPlanner* i ddarparu gwybodaeth glir am hawliadau a budd-daliadau gadawyr gofal. Ynghyd â'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol rydym ni'n edrych ar y gefnogaeth, yr addysg a'r hyfforddiant y gellir eu darparu i adawyr gofal am allu ariannol a rheolaeth ariannol.

Argymhelliad 1(b) (darpariaeth)

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad rhagweithiol ar ei chynnydd yn erbyn yr ymrwymadau hyn i awdurdodau lleol ac yn uniongyrchol i blant a phobl ifanc eu hunain.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae'r ymrwymadau a nodir yn Breuddwydion Cudd wedi'u hymgorffori fel rhan o raglen waith Grŵp Cyngori'r Gweinidog. Mae cynnydd yn cael ei drafod a'i fonitro gan y grŵp. Gadawr gofal, sef Dan Pitt yw'r is-gadeirydd a chaiff pob ffrwd waith ei chadeirio gan Bennaeth Gwasanaethau Plant Awdurdod Lleol. Cynrychiolir y trydydd sector, gan gynnwys Voices from Care, ac mae gan bob ffrwd waith is-gadeirydd sy'n gynrychiolydd o'r trydydd sector.

Wrth ddatblygu'r ymrwymadau a nodir yn Breuddwydion Cudd, fe wnaethom ni ymgysylltu â phobl ifanc er mwyn sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei adlewyrchu wrth i'r gwaith hwn gael ei gyflawni. Mae hyn yn cynnwys llunio'r dull o roi Cronfa Dydd Gŵyl Ddewi ar waith, ein gwaith prentisiaethau,

hyfforddeiaeth a rianta corfforaethol. Trwy gydweithio â swyddfa'r Comisiynydd Plant, yn ddiweddar sicrhawyd cyllid i dreialu arolwg Mannau Disglair o brofiadau a safbwyntiau plant sy'n derbyn gofal mewn chwe Awdurdod Lleol er mwyn helpu i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ar lawr gwlad.

2. Eithriad o'r dreth gyngor ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal

Argymhelliad (2) (darpariaeth)

Dylai Llywodraeth Cymru symud ymlaen â'i gwaith i eithrio pobl ifanc sy'n gadael gofal rhag talu treth y cyngor hyd at 21 oed, i gynorthwyo i liniaru tlodi ymhlith ymadawyr gofal.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Ysgrifennodd cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ym mis Mawrth i ofyn i Awdurdodau Lleol ystyried caniatáu yr hyn a oedd mewn gwirionedd yn esemptiad rhag talu'r dreth gyngor ar gyfer holl hawliadau gadawyr gofal rhwng 18 a 25 oed. Ar hyn o bryd mae CLILC wrthi'n cynnal gwaith modelu gydag Awdurdodau Lleol i sefydlu beth fyddai sefydlu esemptiad rhag y dreth gyngor i adawyr gofal yn ei olygu mewn gwirionedd a chyfri'r goblygiadau ariannol.

Yn dilyn llythyr cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant y cyfeiriwyd ato uchod a chyhoeddiad diweddar Agweddau Awdurdodau Lleol ar Adennill Dyledion y Dreth Gyngor yng Nghymru, bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn ysgrifennu at Awdurdodau Lleol maes o law i ofyn iddyn nhw ddefnyddio'u pwerau i esgusodi gadawyr gofal rhwng 18 a 25 oed rhag talu'r dreth gyngor.

3. Mabwysiadu

Argymhelliad 3 (darpariaeth)

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i sicrhau bod hawliau siblingiaid i gadw mewn cysylltiad yn cael eu hystyried yn llawn wrth gynllunio gofal mabwysiadu.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae'n ddyletswydd ar Awdurdod Lleol sy'n 'darparu gofal' i blentyn hyrwyddo cysylltiad rhwng y plentyn a'i deulu, oni bai bod hynny'n ymarferol afresymol neu'n anghyson â lles y plentyn. Nodir y ddyletswydd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae cod ymarfer Awdurdodau Lleol (sy'n dweud wrthyn nhw beth sy'n rhaid iddyn nhw ei wneud o dan y Ddeddf) yn dweud bod yn rhaid canolbwyntio ar drefniadau cysylltu, a'u llunio yn unol ag anghenion y plentyn. Lles y plentyn yw'r mater pwysicaf sy'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ei ystyried, a rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried safbwyntiau'r plentyn, ei ddymuniadau a'i anghenion o ran cysylltu. Rhaid adolygu'r rhain yn gyson.

Golyga hyn, os yw plentyn neu berson ifanc mewn lleoliad maeth am gael cyswllt cyson gyda brawd neu chwaer, gall ofyn i'r Awdurdod Lleol ystyried hyn. Hefyd, os nad yw'n hapus gyda'r trefniadau cyswllt, gall ofyn i'r Awdurdod Lleol adolygu'r trefniadau a'u newid os oes modd.

Gall y plentyn neu'r person ifanc siarad â'r gofalwr maeth, y gweithiwr cymdeithasol neu'r swyddog adolygu annibynnol (SAA) ynglŷn â hyn. Os yw'r Awdurdod Lleol yn penderfynu bod rhesymau pam na ddylai plant sydd naill ai wedi'u gosod i'w mabwysiadu neu sydd mewn lleoliadau maeth weld ei gilydd yn gyson, byddem yn disgwyl iddyn nhw egluro'r rhesymau am hyn, er enghraifft pam nad yw'n ymarferol, neu pam nad yw er lles gorau'r plentyn.

Mae llawer o lefelau gwahanol o drefniadau cyswllt y gall Awdurdodau Lleol eu defnyddio i hyrwyddo a chefnogi cyswllt â phlant sydd wedi'u gosod mewn

lleoliadau gofal gwahanol. Gall y rheiny amrywio o gyfnewid llythyrau, rhoi'r newyddion diweddaraf i'r teulu genedigol am gynnydd y plentyn, neu gyfarfyddiadau wyneb yn wyneb rhwng y plentyn a'r teulu genedigol.

Rydym ni'n ymwybodol bod cynnal cyswllt yn gallu helpu plentyn i gynnal ei synnwyr o hunaniaeth a'i helpu i ddod i delerau â'r hyn sydd wedi digwydd iddo. Yn aml, gall plant boeni am eu teulu genedigol a gall cyswllt helpu i dawelu eu meddyliau trwy adael iddyn nhw weld bod eu brodyr a'u chwiorydd (ac weithiau eu rhieni) yn iawn. Hefyd, trwy gynnal cyswllt da, gall hyn helpu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r plentyn am unrhyw newidiadau pwysig yn y cartref, ac i blant sy'n derbyn gofal, gall ddangos a yw'n ddiogel i blentyn ddychwelyd adref.

Yn arbennig, pan fo darpar fabwysiadwyr yn cael cynnig hyfforddiant paratoi, mae llawer yn dechrau'r broses gan feddwl na fydden nhw'n gallu neu'n fodlon rheoli trefniadau cyswllt, ond mae hyn yn aml yn seiliedig ar ofn ac anwybodaeth am fanteision cysylltu â pherthnasau genedigol. Lle bo'n briodol, yn gysylltiedig â hyn mae cyfathrebu agored ('open communicativeness') lle trafodir mabwysiadu yn agored gyda'r plentyn o'r cychwyn cyntaf. Erbyn diwedd yr 'hyfforddiant' mae cael gwybodaeth helaethach am realiti cyswllt ein dydd yn helpu darpar fabwysiadwyr i feddwl yn wahanol am y sefyllfa.

Hefyd, cynghorir mabwysiadwyr ynghylch y ffordd mae natur perthynas yn newid, yn sgil cyswllt, ac efallai y bydd rhaid newid y berthynas, ei haddasu a hyd yn oed oedi'r berthynas er mwyn rhoi lle i anghenion y plentyn. Mae rôl i'r asiantaeth ei chwarae o ran helpu'r plentyn mabwysiedig a'r rhieni mabwysiedig i reoli'r trefniadau cysylltu, naill ai trwy flwch llythyrau neu gyswllt heb ei gynllunio a gychwynnir naill ai gan y plentyn mabwysiedig neu'r perthynas genedigol.

Rydym ni'n ymwybodol bod gadawyr gofal wedi codi pwyntiau ynghylch cael cyswllt â brodyr a chwiorydd sydd wedi'u rhoi i'w mabwysiadu ac mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn ei ystyried ymhellach gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu

Cenedlaethol wrth inni gamu ymlaen a datblygu ein cynlluniau i wella gwasanaethau cefnogi ar ôl mabwysiadu.

4. Gofal Preswyl – Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd mewn ymateb i adroddiad Y Gofal Cywir

Argymhelliad 4 (darpariaeth)

Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni yn erbyn cynllun gwaith eu grŵp Gorchwyl a Gorffen, a sefydlwyd mewn ymateb i'm hargymhellion yn adroddiad Y Gofal Cywir.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Sefydlwyd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ofal Plant Preswyl yn Ionawr 2017 i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc a leolir mewn cartrefi plant a llety diogel. Mae'n rhan o ffrydiau gwaith lleoliadau yn rhaglen Gwella Canlyniadau ar gyfer Plant Llywodraeth Cymru, ynghyd â gweithredu'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol, adolygu'r Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig a datblygu model newydd o gefnogaeth mabwysiadu.

Mae'r grŵp wedi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ar ddarpariaeth breswyl yng Nghymru, gan gynnwys profiadau pobl ifanc a ddisgrifir yn adroddiad y Comisiynydd Plant 'Y Gofal Cywir', ac mae wrthi'n gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac asiantaethau eraill i gasglu a dadansoddi data pellach.

Mae'r grŵp wedi datblygu rhaglen waith yn seiliedig ar bedair thema allweddol: cynyddu capasiti ac ansawdd o fewn gofal preswyl; lleoliadau preswyl y tu allan i'r ardal a dros y ffin; cyfranogaeth a chynllunio llwybrau a 'Pan fydda i'n barod'; a llety diogel a'r sefyllfaoedd amgen. Mae'n cyfrannu hefyd at adolygu protocol Plant Coll, ac ystyried darpariaeth addysg a gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng nghyd-destun gofal preswyl.

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn adrodd yn ôl i'r Gweinidog dros Blant a Gofal Cymdeithasol drwy Grŵp Cynghori'r Gweinidog a bydd yn cyflawni ei raglen waith erbyn Rhagfyr 2018.

5. Gofal Preswyl – cynnwys plant a phobl ifanc a chynyddu gwasanaethau nid-er-elw

Argymhelliad 5 (darpariaeth)

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gynnwys plant a phobl ifanc wrth ddylunio a darparu gwasanaethau, a chynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau nid-er-elw, fel bod arian sy'n cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol yn gallu cael ei wario ar wella'r canlyniadau i blant yn hytrach na chreu enillion i randdeiliaid.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynn

Mae Adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol hyrwyddo datblygiad mentrau cymdeithasol a sefydliadau neu drefniadau cydweithredol i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol. Hefyd mae Deddf 2014 yn darparu ar gyfer sefydlu saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol newydd i wella canlyniadau a lles pobl a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau. Rhaid i bob aelod o fyrddau partneriaeth rhanbarthol, gan gynnwys y trydydd sector, weithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ymateb i'r asesiad o anghenion y boblogaeth. Rhaid cynnwys ystod eang o unigolion, grwpiau a sefydliadau yn y broses o gynnal yr asesiad o'r boblogaeth ac wrth ystyried yr ystod a'r lefel o wasanaethau sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion.

Er mwyn cefnogi byrddau partneriaeth rhanbarthol yn eu dyletswydd i hyrwyddo modelau darparu amgen, rydym ni'n cydweithio â CGGC a Chanolfan Cydweithredol Cymru i roi cymorth i ranbarthau sefydlu fforymau

gwerth cymdeithasol, fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf 2014. Bydd y fforymau hyn yn cryfhau cyfraniad y mentrau cymunedol a'r modelau darparu amgen i roi'r Ddeddf ar waith. Mae'r modelau hyn yn cynnwys pobl wrth fynd ati i lunio a darparu gwasanaethau yn sgil eu cyfansoddiad a'u cynllun.

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n goruchwyllo ac yn sicrhau bod y Gronfa Gofal Integredig (y Gronfa) yn cael ei defnyddio'n effeithiol. Yn 2017-18, mae amcanion y Gronfa wedi'u cysylltu â meysydd blaenoriaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer cymhathu. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn eglur y dylid defnyddio'r gronfa fel dull o ddarparu Deddf 2014, gan gynnwys dyletswyddau Adran 16.

6. Eiriolaeth – Dull Cenedlaethol o ymdrin ag Eiriolaeth Statudol

Argymhelliad 6 (darpariaeth)

Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro gweithrediad y Dull Cenedlaethol o ymdrin ag Eiriolaeth Statudol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau arfaethedig yn cyrraedd pawb sydd â hawl i'w derbyn, gan gynyddu tebygolrwydd canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae'r Dull Gweithredu Cenedlaethol yn cynnwys Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol sydd wedi'i gynllunio yn unol â'r Datganiad Llesiant sy'n ategu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Y gost a bennwyd ar gyfer gweithredu'r Dull Gweithredu Cenedlaethol yw rhwng £1 miliwn a £1.1 miliwn. Yn Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Ddarpariaeth Statudol, rhoes cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ymrwymiad y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad o hyd at £550 mil i'r mentrau Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhanbarthol Cydweithredol i gyflawni'r cynnig rhagweithiol yn llawn a chefnogi'r dull gweithredu. Daw gweddi y cyllid o gronfeydd yr Awdurdodau Lleol eu hunain. Grant yw cyllid y Cynnig Rhagweithiol, sy'n cael ei monitro am y ddwy flynedd gyntaf trwy adroddiadau monitro chwarterol.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r gweithgaredd hwn yn uniongyrchol ond mae'n cynnal cyfarfodydd ac adolygiadau bob chwarter gyda'r Uwch Grŵp Arwain ar gyfer y Dull Gweithredu Cenedlaethol. Bydd y gwaith monitro yn symud yn ffurfiol i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau ar gyfer Plant o fis Tachwedd 2017.

Hefyd, mae'r achos busnes wedi nodi cynigion ar gyfer Llywodraeth Cymru i gomisiynu adolygiad annibynnol ar y dull gweithredu cenedlaethol ar ddiwedd blwyddyn gyntaf rhoi'r cynllun ar waith. Byddai'r adolygiad yn ceisio nodi gwelliannau a gyflawnwyd o ran ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad yn yr amrywiol gamau gweithredu.

Hefyd, byddai'r adolygiad yn asesu unrhyw welliannau i ansawdd gwasanaeth, unrhyw broblemau a gafwyd o ran capasiti, ac a oes angen gwneud unrhyw addasiadau neu ailgyfrifiadau gan ddefnyddio'r mecanwaith Ystod a Lefel (h.y. gan ddefnyddio niferoedd poblogaeth, Adroddiadau Rheoli Perfformiad).

Wrth i ni symud ein ffocws o ddatblygu fframwaith statudol o dan Ddeddf 2014 i gyflawni'r ymrwymadau, cydnabyddir ei bod yn gwbl hanfodol bod gennym drefniadau gwerthuso digonol ar waith i allu asesu a yw'r Ddeddf yn derbyn yr hyn a fwriadwyd ei gyflawni gennym.

Bydd tri cham i'r gwerthusiad. Bydd y cyntaf ynghylch monitro polisïau o dan y Ddeddf yn ystod blwyddyn gyntaf ei gweithredu. Bydd yr ail gam yn cynnwys gwerthusiad parhaus, trwy fframwaith canlyniadau cenedlaethol a fframweithiau mesur perfformiad Awdurdodau Lleol. Bydd y trydydd cam yn un gwerthusiad hirdymor annibynnol, yn dechrau yn nhrydedd flwyddyn gweithredu'r Ddeddf.

Addysg

7. Cyfleoedd dysgu Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar gyfer plant sy'n fyddar neu â nam ar eu clyw a'u teuluoedd

Argymhelliad 7 (darpariaeth)

Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau cefnogaeth wladol briodol ar gyfer anghenion cyfathrebu plant a phobl ifanc sy'n fyddar neu â nam ar eu clyw a'u teuluoedd, gan gynnwys cyfleoedd dysgu BSL hygyrch a fforddiadwy ar amrywiaeth o lefelau a chyflogi staff mewn ysgolion sy'n cyfathrebu'n rhugl mewn BSL, er mwyn ymateb i anghenion unigolion.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae'r ymateb i'r argymhelliad hwn yn cwmpasu polisiâu a mentrau yn y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, a'r portffolios addysg.

Portffolio iechyd/ gwasanaethau cymdeithasol:

Mae Cod Ymarfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru, rhan 3, – *Asesu Anghenion Unigolion* a rhan 4 – *Diwallu Anghenion Unigolion* yn datgan yn glir bod yn rhaid i Awdurdod Lleol sicrhau, wrth asesu angen a datblygu cynllun gofal i bobl *F/fyddar*¹ neu sydd â nam ar eu clyw, bod proses asesu a chynllunio gofal ar gael ar ffurf sy'n diwallu anghenion cyfathrebu'r unigolyn. Gall hyn alw am ddarparu cymorth i gyfathrebu yn ôl y gofyn, megis dehonglwyd iaith Arwyddion Prydain.

Rhaid darparu copi o'r cynllun gofal a chymorth yn y cyfrwng y mae'r unigolyn wedi'i ddewis fel ei ddull cyfathrebu. Mae'r Offeryn Asesu a Chymhwysedd

¹ Defnyddir y term 'B/byddar' i ddisgrifio pobl sy'n fyddar (defnyddwyr iaith Arwyddion Prydain) a byddar (sy'n dewis defnyddio iaith lafar a darllen gwefusau ac yn ystyried Saesneg fel eu hiaith gyntaf.)

Cenedlaethol yn nodi'r set ddata graidd y dylid ei chasglu yn ystod asesiad, gan gynnwys gwybodaeth am y dewisiadau cyfathrebu.

Lle bo'n briodol, wrth gynnal asesiad a chynllunio gofal, dylai Awdurdodau Lleol gynnwys arbenigwr gyda gwybodaeth, sgiliau neu arbenigedd mewn perthynas â gofynion penodol megis nam ar y clyw. O ran pobl sy'n ddall a byddar, rhaid cynnal yr asesiad gyda pherson sydd wedi'i hyfforddi'n benodol a all asesu angen am gyswllt personol a rhyngweithio cymdeithasol; technoleg gynorthwyl; cymorth symudedd; cyfathrebu; llesiant emosiynol; hwyluso/adfer sgiliau dysgu ar gyfer bywyd ac anghenion y dyfodol.

Ym mis Mai 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei *Fframwaith Gofal a chymorth integredig ar gyfer pobl sy'n F/fyddar neu sy'n byw â cholled clyw*. Mae'r Fframwaith yn ymrwmo Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd, Awdurdodau Lleol a sefydliadau'r trydydd sector i gydweithio i wneud gwelliannau pellach i wasanaethau ar gyfer pobl a sicrhau bod gofal a chymorth o ansawdd uchel ar gael. Mae un o themâu craidd 'Adsefydlu' yn ymwneud â 'Galluogi pobl i gael gafael ar sgiliau, cyngor a thechnoleg fydd yn eu helpu i gyfathrebu, boed yn Gymraeg neu yn Saesneg, trwy ddarllen gwefusau neu Iaith Arwyddion Prydain neu ddulliau eraill.'

Wrth ymateb i alwadau gan sefydliadau'r trydydd sector, cytunodd cyn Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatblygu a chyhoeddi canllawiau arferion gorau ar namau synhwyrdd i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i wneud yn y *Fframwaith Integredig* a datblygir y canllawiau mewn partneriaeth â sefydliadau'r trydydd sector ac ag Awdurdodau Lleol yn ystod tymor cyfredol y Cynulliad.

Portffolio Dysgu Gydol Oes:

Cyfrifoldeb Awdurdodau Lleol yw darparu darpariaeth addysg addas i bob plentyn, gan gynnwys plant ag anghenion addysgol arbennig megis nam ar y clyw. Mae hyn yn cynnwys sicrhau cymorth priodol trwy gyfrwng athrawon arbenigol. Darperir cyllid i gefnogi Awdurdodau Lleol i gyflawni'r ddyletswydd

hon gan Lywodraeth Cymru, trwy grant heb ei neilltuo, sef y Grant Cynnal Refeniw. Mae hyn yn golygu nad yw cyllid ar gyfer anghenion addysg arbennig wedi'i glustnodi.

Mae nifer o ddarparwyr gan gynnwys Colegau Addysg Bellach ac Awdurdodau Lleol yn cynnig cyrsiau Iaith Arwyddion Prydain, er nad oes ar hyn o bryd lawer o gysondeb o ran faint o gost yw hyn i'r dysgwyr. Cynigir y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth ar sail ad-dalu'r costau'n llawn. Cynhelir arolwg arbennig yn ddiweddarach eleni i ystyried ffordd fwy cadarnhaol ymlaen o sicrhau darpariaeth Iaith Arwyddion Prydain sy'n decach ac yn fwy hygyrch.

Fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol, rydym yn buddsoddi yn y gweithlu addysg sy'n cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu arbennig (Anghenion Dysgu Ychwanegol o dan y drefn newydd). Rydym wedi comisiynu CLILC i gynnal arolwg o weithlu arbenigol Awdurdodau Lleol er mwyn deall yn well beth yw anghenion eu gwasanaethau arbenigol. Mae hyn yn cynnwys casglu data ar sgiliau Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn darparu cyllid i gefnogi ystod o arbenigeddau, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain a Braille.

lechyd

8. Iechyd Meddwl

Argymelliad 8 (darpariaeth)

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y rhaglen T4CYP yn parhau y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon, nes bod modd eu bodloni bod gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant digonol ar gael i blant yng Nghymru yn ôl yr angen ac yn y manau lle mae eu hangen. Mae angen i effaith ac allbynnau'r Rhaglen fod yn gynaliadwy i'w cyflawni ar lefel leol, ac mae angen i waith y Rhaglen fod wedi'i wreiddio'n ddigonol i'r byrddau cynllunio rhanbarthol fedru cynnal cynnydd ac ansawdd y ddarpariaeth i holl blant Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Arweinir Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP) gan y GIG gyda chyfraniad agos gan swyddogion Llywodraeth Cymru, ond nid ni sy'n rheoli'r rhaglen. Yn ddiweddar mae Bwrdd Rhaglen T4CYP wedi cytuno y dylai'r Rhaglen redeg tan fis Mawrth 2019. Fel y bydd y cyfnod yn dod i ben bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn disgwyl i Fwrdd y Rhaglen ystyried pa drefniadau etifeddiaeth, os oes rhai, sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod gwelliannau wedi'u sefydlu'n drylwyr ac yn gynaliadwy ar draws gwaith y sefydliad.

9. Eiriolaeth Iechyd

Argymhelliad 9 (darpariaeth)

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod eiriolaeth gysylltiedig â iechyd ar gael i bobl ifanc o dan 18 oed, ac yn hygyrch i bawb sydd ei hangen.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Ar 2 Mawrth 2011, rhoddwyd cyfarwyddiadau i bob bwrdd iechyd ar ddarparu gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd am wneud cwyn am wasanaethau iechyd yn y GIG yng Nghymru. Roedd y Cyfarwyddiadau'n egluro nad oedd Cyngorau Iechyd Cymuned bellach o dan ymrwymiad cyfreithiol i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac mai cyfrifoldeb y byrddau iechyd oedd comisiynu gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol ar gyfer plant a phobl ifanc. Dylai byrddau iechyd yng Nghymru gael trefniadau ar waith hefyd i ddarparu eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol sydd wedi'u hyfforddi i weithio gyda phlant a phobl ifanc.

Gofynnir am sicrwydd ar unwaith gan yr holl fyrddau iechyd fod trefniadau ar waith i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc sydd am wneud cwyn am wasanaethau iechyd yn y GIG yng Nghymru, yn unol â Chyfarwyddiadau 2011.

Yn ystod y deuddeg mis nesaf, cynhelir gwaith i archwilio sut y gellir darparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc yn fwy effeithiol ar draws gwasanaethau yn dilyn y dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Trafnidiaeth

10. Trafnidiaeth

Argymhelliad 10 (darpariaeth)

Rwy'n annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cymhorthdal cludiant cyhoeddus i blant ar gael hyd at 18 oed, heb newid cymhwysra yn 16 oed.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Ym mis Chwefror 2017, estynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth y cynllun Fy Nhocyn Teithio, gan ganiatáu pris sydd draean yn llai ar gyfer pobl 16 i 18 oed ar gyfer eu holl deithiau bws lleol. Mae hyn wedi ein galluogi i gynnal yr ymgynghoriad cyfredol - o 10 Hydref tan 4 Ionawr - i gasglu safbwyntiau pobl ifanc, ysgolion, colegau a chwmnïau bysiau am y cynllun newydd. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu cynllun sy'n annog pobl ifanc i ddefnyddio bysiau a manteision cynllun o'r fath iddyn nhw ac i'r amgylchedd.

Defnyddir canfyddiadau'r ymgynghoriad i ddatblygu cynllun newydd, i'w gyflwyno yn Ebrill 2018. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am farn ynghylch estyn oedran cymhwysedd i 24 oed, a thrwy hynny agor y cynllun i fwy o bobl ifanc, ac ynghylch gwella lefel y pris gostyngol.

Hyd yn hyn mae dros 17,000 o bobl ifanc wedi gwneud cais am Fy Nhocyn Teithio. Yn ôl ein ffigurau diwethaf, mae dros 500,000 o deithiau wedi'u gwneud yn y flwyddyn ariannol hon a rhagwelir y bydd 1.5 miliwn o deithiau wedi'u gwneud erbyn Mawrth 2018. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw'r cynllun i'r defnyddwyr, a sut mae'r cynllun yn cyfrannu at lawer o feysydd polisi Llywodraeth Cymru.

O ran pobl 16 i 18 oed mewn addysg, penderfyniad yr Awdurdodau Lleol yw cynnig cynlluniau tocynnau bws gostyngol. Bydd rhai colegau addysg lleol yn ariannu eu cynlluniau eu hun.

Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol

11. Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol: dyletswydd o sylw dyledus

Argymhelliad 11 (darpariaeth)

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dyletswydd sy'n gofyn bod pob corff perthnasol o dan y Ddeddf yn rhoi sylw dyledus i CCUHP a CCUHPA, a rhoi'r ddyletswydd honno ar wyneb y Bil.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn parhau'n absoliwt ac rydym yn parhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo a diogelu hawliau'r plentyn wrth gydymffurfio â'n hymrwymadau o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru). Fodd bynnag, nid ydym yn cytuno â'r rhagdybiaeth fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi dyletswydd gyffredinol ar ddarparwyr i ystyried y Confensiwn yn yr holl ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc.

Wrth ddatblygu Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried hawliau plant a sicrhau eu bod wedi cael eu cynnwys yn y Bil. Trwy gydymffurfio â dyletswyddau'r Bil, bydd darparwyr gwasanaeth ac ymarferwyr yn gweithredu'r hawliau a ddisgrifir yn y Confensiwn. Mae sefyllfa'r Llywodraeth yn sefyll, sef bod y Bil yn ymgorffori egwyddorion y Confensiwn ac yn darparu fframwaith cyfreithiol newydd sydd yn wirioneddol 'seiliedig ar hawliau'.

Er hynny, rydym wedi adlewyrchu cryfder teimladau rhanddeiliaid ac Aelodau'r Cynulliad ar gynnwys dyletswydd sylw dyledus wrth basio'r Bil – ac rydym wedi cymryd camau cadarnhaol i ymateb i hyn. Yng Ngham 3, pasiwyd cyfres o welliannau llywodraethol ac anllywodraethol o ran y Confensiwn Hawliau Plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag

Anableddau. Mae'r gwelliannau hyn yn taro cydbwysedd priodol rhwng y dyhead amlwg i weld cyfeiriad amlwg a diamwys at y Confensiynau ar wyneb y Bil hwn ac iddynt gael eu hystyried heb leihau unrhyw ganlyniadau anfwriadol, yn cynnwys peidio â gorlethu ymarferwyr y rheng flaen yn ormodol.

12. Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol: Cryfhau Pwerau Tribiwnlys Addysg Cymru

Argymhelliad 12 (darpariaeth)

Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gryfhau pwerau Tribiwnlys Addysg Cymru trwy estyn ei gwmpas i gynnwys cyrff iechyd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn yn rhannol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn ddwys y galwadau i gryfhau Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) mewn perthynas â'r Tribiwnlys Addysg a'i ymgysylltiad â'r cyrff iechyd. Derbyniwyd gwelliannau'r Llywodraeth i'r Bil sy'n cryfhau ymhellach rôl y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn y system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd yng Ngham 2 o'r broses ddeddfwriaethol.

Y Blynyddoedd Cynnar

13. Cynnig Gofal Plant

Argymhelliad 13 (darpariaeth)

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau trwy beilot y cynnig gofal plant ac unrhyw gynllun dilynol nad yw plant rhieni sydd ddim yn gweithio yn colli cyfle o ystyried y gofal plant cynyddol sy'n cael ei gynnig i blant rhieni sy'n gweithio.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

Bydd ein cynnig gofal plant yn darparu gofal plant ac addysg gynnar a noddir gan y llywodraeth am 30 awr i blant 3 a 4 oed ar gyfer rhieni sy'n gweithio am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth tymor ysgol a gwyliau. Bydd o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg gynnar yn parhau i fod ar gael i bob plentyn 3 a 4 oed yn ystod y tymor.

Mae'r cynnig yn cael ei brofi mewn saith o ardaloedd Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio i rieni a darparwyr gofal plant. Mae'r ardaloedd fel a ganlyn: Gwynedd, Môn, Caerffili, Sir y Fflint, Abertawe, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf. Bydd Gwynedd a Môn yn gweithio ar y cynllun peilot gyda'i gilydd. Ar ôl cyflwyno'r cynllun yn llawn, bydd pob plentyn cymwys yn gallu derbyn y cynnig o'r tymor sy'n dilyn ei ben-blwydd yn 3 oed.

Mae'r cynnig gofal plant yn cynnig cefnogaeth i gyflawni dau o amcanion tlodi plant Llywodraeth Cymru:

- Defnyddio pob ysgogiad posibl i leihau nifer y teuluoedd sy'n byw ar aelwydydd heb waith, gan fod plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith mewn mwy o berygl o fyw mewn tlodi.

- Mynd i'r afael â'r broblem gynyddol o dlodi mewn gwaith yng Nghymru trwy greu economi gref a marchnad lafur sy'n cefnogi'r agenda ar gyfer trechu tlodi.

Mae'r dystiolaeth yn glir mai gwaith sy'n talu'n dda yw'r ddihangfa orau o dlodi, a'r amddiffynfa orau rhag tlodi. Bydd y cynnig Gofal Plant yn cefnogi teuluoedd sy'n gweithio ledled Cymru ac yn ei gwneud yn haws i rieni fynd i weithio ac aros mewn cyflogaeth.

Mae mwy a mwy yn cydnabod, hyd yn oed pan fo oedolion yn cael eu cefnogi i fynd i weithio, y gallan nhw fynd o sefyllfa o fod mewn tlodi heb waith i fod mewn tlodi mewn gwaith. Yng Nghymru mae'r rhan fwyaf o blant sydd mewn tlodi incwm cymharol yn byw ar aelwyd lle mae o leiaf un person yn gweithio. Trwy'r cynnig gofal plant, bydd hyn yn helpu i drechu tlodi mewn gwaith trwy ysgwyddo'r gost bwysig hon, trwy gefnogi rhieni i gyflogaeth lawn amser, trwy gefnogi pobl sy'n gweithio'n rhan-amser i weithio rhagor o oriau a thrwy gefnogi'r ail enillydd i fynd allan i weithio.

Fel hyn a thrwy ddulliau eraill, bydd y gofal plant a gynigir yn rhoi cyfleoedd a manteision hirdymor i'n plant ac yn gwella'u cyfleoedd mewn bywyd. Mae'n un o gyfres o bolisïau – gan gynnwys Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) a chyflwyno parthau plant – y byddwn yn eu dilyn yn ystod tymor presennol y llywodraeth i gefnogi cymunedau ac i feithrin cydnherthedd.

Tlodi

14. Tlodi Plant

Argymhelliad 14 (darpariaeth)

Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio popeth o fewn ei gallu i liniaru tlodi plant, gan gynnwys defnyddio pwerau newydd i godi trethi. Dylai gefnogi awdurdodau lleol i gynnig mwy o gymorth mewn meysydd penodol y gwyddys eu bod yn rhoi pwysau ar y teuluoedd tlotaf, gan gynnwys teimlo'n llwglyd yn ystod y gwyliau, costau gwisg ysgol a biliau tanwydd domestig uchel.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Mae datganoli pwerau trethu yn rhoi ystod o gyfleoedd i Lywodraeth Cymru ddatblygu ymagwedd Cymru tuag at drethiant. Ar 12 Mehefin, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y cynllun gwaith a'r Fframwaith Polisi Trethi.

Un o egwyddorion y fframwaith polisi trethi yw y dylai trethi Cymru gyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sef creu Cymru fwy cyfartal.

Fel rhan o Gynllun Gwaith Polisi Trethi, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn bwriadu trechu anghydraddoldeb trwy ystyried sut gellir trethu'n decach, gan barhau i gefnogi swyddi a thwf.

Mae datganoli pwerau trethu i Gymru yn gyfle pellach i helpu i gyflawni amcanion polisi. Gall trethi fod yn ysgogiad pwerus, ond wrth ei ddefnyddio mae angen bod yn eglur ynghylch amcanion polisi ac amcanion ariannol, ac effeithlonrwydd gweinyddol.

Rydym yn cydweithio'n agos ag Awdurdodau Lleol yng Nghymru a'u corff cynrychioliadol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), i wella

canlyniadau ar gyfer aelwydydd incwm isel. O dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i bennu amcanion a chymryd camau i helpu i drechu tlodi plant. I gyflawni'r ddyletswydd hon, mae Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio i gyflawni ystod o raglenni trechu tlodi.

Nodwyd trechu tlodi bwyd yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn ei Strategaeth Tlodi Plant yng Nghymru 2015. Mae CLILC yn gweinyddu'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf - Bwyd a Hwyl - sy'n rhoi cefnogaeth i blant yn ystod eu gwyliau haf gyda rhaglen o weithgareddau yn ogystal â brecwast a chinio rhad ac am ddim. Cynhelir y Clybiau am 12 diwrnod yn ystod y gwyliau haf a'r nod yw rhoi sylw i faterion megis ansicrwydd prydau bwyd, colli addysg yn ystod y gwyliau ac allgau cymdeithasol.

Canfu gwerthusiad cynllun peilot 2016 fod effaith gadarnhaol wedi bod ar y plant o ran lefelau gweithgarwch, deiet, ynysu cymdeithasol a chyfleoedd i ddysgu ac ymgysylltu â'r ysgol.

Mae CLILC yn cydweithio ag ysgolion i dargedu gwahoddiadau yn bennaf i'r cohort Cyfnod Allweddol 2 lle mae lefelau uwch na'r cyfartaledd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, a phlant penodol sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim y cred yr ysgol y byddent yn elwa fwyaf o'r rhaglen. Cynhaliwyd 39 o glybiau yn ystod gwyliau haf 2017, yn cynnwys yn bennaf grwpiau o 40 o ddysgwyr, er bod rhai ysgolion unigol wedi cynnal darpariaeth ar gyfer 80, ac un enghraifft o 120 o ddysgwyr.

Yn Ionawr eleni, cyhoeddodd Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, y byddai £500,000 yn cael ei ddarparu i CLILC ym mlwyddyn ariannol 2017-2018.

Mae'r gyllideb ddrafft yn dyrannu cyfanswm dros dro o £500 mil ar gyfer y cynlluniau Bwyd a Hwyl ym mlynnyddoedd ariannol 2018-19 a 2019-20. Fodd bynnag, hoffem nodi bod y rhaglen yn gwneud llawer mwy na diwallu plant

llwglyd yn ystod y gwyliau, a dylid ei diffinio trwy ddweud ei bod yn darparu gweithgareddau addysgol gwerthfawr.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn helpu teuluoedd incwm isel i gynyddu incwm eu haelwyd a threchu'r premiwm tlodi trwy gefnogi gweithgarwch i fynd i'r afael â biliau tanwydd domestig uchel. Rydym yn parhau i ddarparu cymorth i aelwydydd trwy Raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys cynlluniau Cartrefi Clyd Nyth ac Arbed. Nod y Rhaglen yw trechu tlodi tanwydd trwy wella effeithlonrwydd ynni yng nghartrefi pobl ar incwm isel neu bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a'u gwneud yn gynhesach ac yn fwy fforddiadwy i'w cynhesu.

Rhwng 2011 a 2016, rydym wedi buddsoddi dros £217 miliwn yn Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru i wella dros 39,000 o gartrefi ac aelwydydd ar incwm isel neu sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o Gymru. Byddwn yn buddsoddi £104 miliwn pellach ar gynllun Cartrefi Clyd dros y 4 blynedd nesaf er mwyn gwella 25,000 o gartrefi pellach.

Rydym wedi cefnogi teuluoedd incwm isel ar adegau pan fo llawer o gostau, er enghraifft, pan fo plentyn yn cychwyn mewn ysgol uwchradd a'r rhieni yn wynebu'r gost o brynu gwisg ysgol newydd. Am yr 11 o flynyddoedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid o dan gynllun grant gwisg ysgol Cymru gyfan i deuluoedd cymwys.

Rydym wedi gweithio gydag Awdurdodau Lleol sy'n gweinyddu'r cynllun grant ar ran Llywodraeth Cymru i alluogi teuluoedd i wneud cais am grant unigol gwerth £105 yr un i helpu i dalu costau prynu gwisg ysgol.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru'n darparu canllawiau ar wisg ysgol sy'n amlinellu ei disgwyliad y bydd cyrff llywodraethu ysgolion yn ystyried cost gwisg ysgol a pha mor fforddiadwy ydyw ac yn ymgynghori â theuluoedd pan wneir unrhyw newidiadau i bolisiâu ar ymddangosiad.

Yng Nghyllideb Ddrafft 2018-19 a 2019-20 bwriedir i gyllideb Grant Gwisg Ysgol fod ar gael i Lywodraeth Leol trwy'r Setliad Llywodraeth Leol fel rhan o

ddull Llywodraeth gyfan o flaenoriaethu gwasanaethau lleol, ysgolion a gofal cymdeithasol.

Bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd lleol i bennu blaenoriaethau a fydd yn cefnogi ysgolion a theuluoedd orau. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Leol ac yn monitro'r maes hwn yn ystod y flwyddyn sy'n dod.

Rydym yn parhau i ddefnyddio pob ysgogiad o fewn ein cyrraedd i drechu tlodi plant yng Nghymru. Mae cydweithio'n agos ag Awdurdodau Lleol yn hanfodol os ydym am wneud gwahaniaeth sy'n para, gan gryfhau ein dull cydweithredol o gynyddu effaith ein hymdrechion yn ystod yr adegau anodd hyn.

DIOGELU

Addysg

1. Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant

Argymhelliad 1 (diogelu)

Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod anghenion tymor hir a lles plant yn cael eu diogelu trwy sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cael ei seilio'n amlwg ar Ddull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant a bod y deilliannau dysgu'n cefnogi pob plentyn i wybod beth yw eu hawliau o dan CCUHP.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Mae deall hawliau yn rhan hanfodol o bedwar diben y cwricwlwm newydd, ac un ohonynt yw cefnogi dysgwyr i fod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus sy'n deall ac yn defnyddio eu hawliau a'u cyfrifoldebau dynol a democrataidd. Felly, bydd angen i arloeswyr ystyried sut y gall pob Maes Dysgu a Phrofiad (AoLE) gefnogi'r ddealltwriaeth hon a lle bo'n briodol ei nodi.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydgysylltu â'r Comisiynydd Plant i weld sut gall Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn lywio'r cwricwlwm newydd. Cyfarfu Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg â'r Comisiynydd Plant i drafod y materion hyn.

Mae'r Comisiynydd Plant wedi cynnig edrych ar greu model i olrhain y Confensiwn ar draws y chwe maes newydd ac rydym yn awyddus i archwilio hyn ymhellach.

I gefnogi'r cwricwlwm newydd, mae Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl yn nodi ein pedwar amcan galluogi, ac un o'r amcanion yw "Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles"

2. Perthansoedd Iach

Argymhelliad 2 (diogelu)

Dylai adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Canllawiau 'Parchu Eraill' roi sylw i brofiadau uniongyrchol a safbwyntiau plant a phobl ifanc ynghylch effaith bwlio ac effeithiolrwydd polisiâu ac arferion cyfredol. Dylai nodi'n eglur sut mae'n bwriadu atal a mynd i'r afael â bwlio ar lefel genedlaethol, ac amlinellu sut bydd y gwaith hwn yn dylanwadu ar ddiwygio'r cwrwclwm a hyfforddi athrawon.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Mae mynd i'r afael â bwlio ym maes addysg yn parhau yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Fel y bu inni nodi yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* o dan yr amcan galluogi "Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles", rhaid i bob dysgwr gael ei gefnogi i fod yn barod yn emosiynol a chorfforol i ddysgu mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Mae diogelwch, diogelwch personol a llesiant plant a phobl ifanc o'r pwys mwyaf a disgwyliwn i ysgolion fabwysiadu dull o ddim goddefgarwch tuag at bob math o fwlio. Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal a darpariaeth gyfartal, gan sicrhau bod ein dysgwyr yn cael eu cefnogi'n briodol i gyflawni eu llawn botensial.

Sylfaen y dull hwn yw arweiniad effeithiol i gefnogi ysgolion a gwasanaethau addysg i gyflawni eu dyletswyddau mewn modd sy'n creu amgylchedd cynhwysol ac ymgysylltiol, lle gall pob plentyn a pherson ifanc ffynnu. Ein gweledigaeth yw trechu bwlio mewn modd holistaidd, gan fynd at wraidd problemau ymddygiad annerbyniol a chreu amgylchedd cynhwysol ac ymgysylltiol lle gall dysgwyr deimlo'n ddiogel ac yn barod i ddysgu. I gyflawni hyn, bydd rhaid cael agwedd gyson ar draws meysydd addysgu, dysgu ac ymddygiad o fewn yr ysgolion, sy'n canolbwyntio ar anghenion y dysgwyr.

Eisoes rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â gwasanaethau addysg i ddeall sut y gellir cryfhau'r cyfarwyddyd ar fwlio. Gan weithio gyda Plant yng Nghymru, rydym eisoes wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc sawl

gwaith. Mae hyn yn cynnwys cynnal gweithdy penodol ar fwlio yng Nghynhadledd Genedlaethol Cymru Ifanc ym mis Chwefror eleni a threfnu gweithdai gyda phlant a phobl ifanc i adolygu canllawiau 'Parchu Eraill', a gynhaliwyd ym mis Hydref. Bydd adborth a gasglwyd yn y gweithgareddau hyn yn sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried yn llawn wrth i ni ddatblygu'r canllawiau newydd.

3. Cwricwlwm

Argymhelliad 3 (diogelu)

Dylai Llywodraeth Cymru wneud addysg hawliau dynol plant yn agwedd orfodol ar y cwricwlwm. Dylai rhaglen Diwygio'r Cwricwlwm wreiddio dysgu ynghylch Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn ar draws pob rhan o'r cwricwlwm newydd. Dylai hynny gynnwys cysylltu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol â hawliau plant a chefnogi plant a phobl ifanc i ddeall bod ganddyn nhw'r un hawliau ar-lein ag oddi ar-lein.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn yn rhannol

Gan fod deall hawliau dynol wrth wraidd y pedwar amcan, bydd angen i ysgolion a gweithwyr proffesiynol sicrhau eu bod yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r ddealltwriaeth hon. I gefnogi hyn, bydd ysgolion arloesol yn ystyried sut y gall Meysydd Dysgu a Phrofiad ddatblygu dealltwriaeth o hawliau dynol. Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol yr hyblygrwydd i ddatblygu profiad holistaidd sy'n diwallu anghenion penodol dysgwyr yn eu cyd-destun a'u cymuned. Felly, yn unol â *Dyfodol Llwyddiannus*, nid yw'n berthnasol cyfeirio at wneud y cynnwys penodol hwn yn orfodol.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n cydgysylltu â'r Comisiynydd Plant i ystyried sut gall Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn lywio'r cwricwlwm newydd. Cyfarfu Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg â'r Comisiynydd Plant i drafod y materion hyn.

Cynigiodd y Comisiynydd Plant ystyried creu model i olrhain y Confensiwn ar draws y chwe maes Dysgu a Phrofiad newydd ac rydym yn awyddus i archwilio hyn ymhellach.

4. Dewis Addysgu Gartref

Argymhelliad 4 (diogelu)

Rwy'n dal o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru newid y canllawiau cyfredol i roi grym statudol iddynt, a chynnwys cofrestr orfodol ar gyfer yr holl blant sy'n cael eu haddysgu gartref i sicrhau nad ydynt yn syrthio "oddi ar y radar" yn achos y gwasanaethau cyffredinol, hyd yn oed. Mae hefyd yn bwysig bod diwygio'r canllawiau yn cynnwys pwerau clir i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn gweld plant ac yn siarad yn uniongyrchol â nhw ynghylch eu haddysg eu hunain.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru'n rhannu pryderon y Comisiynydd na ddylai unrhyw blentyn fod yn anweledig i'r gwasanaethau statudol a chyffredinol. Felly, mae angen i'n hagwedd fod yn holistaidd, nid edrych ar addysg yn unig, ond dylai ystyried sut y gellir cryfhau diogelwch yn yr holl wasanaethau ac asiantaethau.

Mae ein canllawiau diwygiedig ar addysg ddewisol yn y cartref, a gyhoeddwyd fis Ionawr diwethaf, yn rhan o becyn o fesurau rydym ni yn eu datblygu i gefnogi Awdurdodau Lleol a'r gymuned dysgu yn y cartref. Fel rhan o'r mesurau hyn rydym yn ystyried y posibilrwydd o gyflwyno deddfwriaeth. Fodd bynnag, rydym ni am fod yn gwbl sicr cyn cymryd unrhyw gamau i gyflwyno deddfwriaeth ein bod wedi ystyried yn ofalus pa mor effeithiol yw polisiau a deddfwriaeth gyfredol o ran cefnogi Awdurdodau Lleol ac addysgwyr yn y cartref i gyflawni eu cyfrifoldebau. Wrth wneud hyn mae'n rhaid i ni fod yn sicr y byddai cynigion deddfwriaethol yn gymesur ac yn angenrheidiol.

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

5. Cysondeb yn y data sy'n cael ei gasglu, a dadansoddi'r data

Argymhelliad 5 (diogelu)

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cysondeb yn y data sy'n cael ei gasglu ynghylch CSE ledled Cymru i ddarparu darlun cenedlaethol o'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu yng nghyswllt CSE. Dylai ddadansoddi'n drylwyr yr heriau a'r bylchau a nodwyd gan y data cenedlaethol a mynd ati i weithredu yn eu cylch.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar set ddata gyffredin a dull o gasglu ac adrodd i Fyrddau ar gyfer Diogelu Plant sy'n ceisio darparu adroddiadau cyson a chywir ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar draws Cymru. Yn dilyn cynllun peilot tri mis roedd hi'n amlwg nad oedd hwn yn ddull effeithiol o gasglu'r data gofynnol.

Bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda grŵp gorchwyl a gorffen, a enwebwyd gan grŵp Bord Gron Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant y Comisiynydd Plant i adolygu hyn. Cyfarfu'r grŵp ym mis Ionawr 2017 gan wella'r meysydd a adroddwyd yn flaenorol ac ysgrifennwyd at Benaethiaid Gwasanaethau Plant i gasglu manylion data a adroddwyd yn barod fel na fyddai unrhyw ddyblygu.

Mae'r wybodaeth a dderbyniwyd gan Awdurdodau Lleol yn dangos bod gwahaniaethau rhwng y setiau data cyfredol a gasglwyd mewn perthynas â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar lefel Awdurdod Lleol. Rydym wedi bod yn ystyried ffyrdd o gynnwys set ddata genedlaethol gyffredin ym mhrosesau adrodd cyfredol Awdurdodau Lleol.

Mae cyfarwyddyd statudol ar ddiogelu plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin trwy Gamfanteisio Rhywiol, protocol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Cymru Gyfan, diffiniad ac offeryn fframwaith asesu'r risg o gam-fanteisio rhywiol (SERAF) wedi bod yn destun adolygiad a gomisiynwyd gan Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 15 Tachwedd 2017. Bydd yr adolygiad yn llywio'r gwaith o ddatblygu canllawiau statudol newydd sy'n cyfateb i ganllawiau ymarfer cenedlaethol.

Bydd grŵp gorchwyl a gorffen amlasiantaeth dan gadeiryddiaeth Dr Sophie Hallett a gwblhaodd yr adolygiad yn cyfarfod am y tro cyntaf yn Chwefror 2018 i ystyried drafft cyntaf o'r canllawiau ymarfer a chanllawiau ar eu newydd wedd a fydd yn cynnwys gofynion o ran casglu data ac adrodd.

Bydd set ddata genedlaethol ar gyfer Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn darparu data i ni ar raddfa Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yng Nghymru ond mae'n annhebygol y bydd yn rhoi dadansoddiad i ni o natur y math o gamdriniaeth yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n cynnal rhaglen ymgysylltu ledled y sector gyda'r arweinwyr a'r ymarferwyr mewn perthynas â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant er mwyn deall yn well beth yw natur Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yng Nghymru. Bydd hyn yn llywio'r gwaith o ddarparu canllawiau statudol ar eu newydd wedd ar ddiogelu plant sydd mewn perygl neu sy'n cael eu cam-drin yn sgil Camfanteisio Rhywiol ar Blant.

Hefyd, byddwn yn comisiynu darn o waith i wrando'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc ac i ymgynghori â nhw ar gynnwys y protocol a'r canllawiau ar eu newydd wedd.

Hefyd, bydd y canllawiau yn defnyddio nifer o ddarnau o ymchwil cyfredol sydd ar waith megis Prosiect Gwella ym Mhrifysgol Caerdydd gan CASCADE fel rhan o brosiect dan arweiniad Barnardo's Cymru a noddir trwy Grant Trydydd Sector Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Bydd Cynllun Gweithredu Cenedlaethol newydd ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn cael ei gynhyrchu ar ôl cyhoeddi'r canllawiau statudol newydd a'r canllawiau ymarfer. Bydd y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol yn ceisio cefnogi'r gwaith o weithredu'r canllawiau a'r protocol newydd yn effeithiol ac adroddir ar gynnydd mewn meysydd megis gofynion casglu data fel rhan o'r broses hon.